Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Martin Peters
Pennaeth y Gyfraith a Moeseg, Archwilio Cymru
(Trwy e-bost)

2 Chwefror 2021

Annwyl Martin,

**Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 - Treuliau'r Archwilydd Cyffredinol**

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr ar 7 Chwefror 2020 ynghylch y darpariaethau yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Deddf 2013) sy'n ymwneud â nodi treuliau a dalwyd i'r Archwilydd Cyffredinol yn rhinwedd ei swyddogaethau ar wahân fel:

- Archwilydd Cyffredinol Cymru - wedi'u codi ar Gronfa Gyfunol Cymru, a'u talu allan ohoni, yn unol ag adran 7 o Ddeddf 2013; ac
- Aelod a Phrif Weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru - wedi'u talu gan Swyddfa Archwilio Cymru heb unrhyw dâl uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, yn unol â pharagraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013.

Nodaf fod Swyddfa Archwilio Cymru o'r farn nad yw darpariaethau Deddf 2013 yn glir ac, yn ogystal â hynny, o'r farn nad yw'n ymarferol nac yn gysyniadol gadarn i geisio gwahanu treuliau'r Archwilydd Cyffredinol. Deallaf hefyd, hyd yn hyn, mai Swyddfa Archwilio Cymru sydd wedi talu holl dreuliau teithio a chynhaliaeth yr Archwilydd Cyffredinol o'i chyllideb flynyddol heb unrhyw dâl uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

Ar ôl ystyried dull presennol Swyddfa Archwilio Cymru, a cheisio cyngor cyfreithiol gan Wasanaethau Cyfreithiol a Chwnsler allanol y Senedd, mae'r Pwyllgor o'r farn nad yw'r dull hwn yn cadw at ddarpariaethau Deddf 2013 ac mae esboniad manylach wedi'i atodi i'r llythyr hwn. Felly, byddwn yn gwahodd Swyddfa Archwilio Cymru i fyfyrio ar ei harfer presennol o dalu treuliau i'r Archwilydd Cyffredinol ac ystyried y sefyllfa gyda'i harchwilwyr, os bydd angen.

Roedd eich llythyr hefyd yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried a ellid diwygio'r darpariaethau sy'n ymwneud â thalu treuliau i'r Archwilydd Cyffredinol er mwyn rhoi mwy o eglurder. Gan y bydd y Bil arfaethedig bellach yn fater i'r Pwyllgor Cyllid nesaf, mae'r Aelodau wedi cytuno i awgrymu y dylai

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

pwyllgor yn y dyfodol ystyried y mater hwn fel rhan o unrhyw waith yn y dyfodol ar y Bil Archwilio Cyhoeddus (Diwygio) (Cymru) drafft, ac yng ngoleuni ymateb Swyddfa Archwilio Cymru.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Atodiad**

1. Caiff yr Archwilydd Cyffredinol adennill yn gyfreithlon yr holl dreuliau, pa un a fydd yn eu hysgwyddo yn rhinwedd ei swydd fel "archwilydd cyhoeddus" neu fel prif weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â'r trefniadau talu cydnabyddiaeth ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a bennir gan y Pwyllgor Cyllid yn unol ag adran 7 o Ddeddf 2013. Y rheswm am hynny yw, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 4 o'ch llythyr, yr Archwilydd Cyffredinol yw prif weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru yn ôl y gyfraith (o dan adran 16 o Ddeddf 2013).

2. Rhaid i unrhyw symiau o'r fath sy'n cael eu hawlio o dan y trefniadau cydnabyddiaeth ariannol hynny gael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru, a'u talu allan ohoni, yn unol ag adran 7(6) o Ddeddf 2013.

3. Dim ond yn unol â pharagraff 13 o Atodlen 1 i Ddeddf 2013 y caiff Swyddfa Archwilio Cymru dalu symiau i'r Archwilydd Cyffredinol i dalu treuliau y gellir eu priodoli'n <u>llwyr</u> i'r Archwilydd Cyffredinol wrth arfer ei swydd fel "prif weithredwr", yn wahanol i "archwilydd cyhoeddus". Mae darpariaethau perthnasol paragraff 13 yn nodi fel a ganlyn (**pwyslais wedi'i ychwanegu gennym**):

    *(1) Caiff SAC wneud darpariaeth i **daliadau ychwanegol** gael eu gwneud i'r Archwilydd Cyffredinol drwy lwfansau a buddion eraill i dalu treuliau yr aed iddynt yn briodol ac o anghenraid gan yr Archwilydd Cyffredinol **yn rhinwedd ei swydd fel aelod o SAC a phrif weithredwr arni.***

    *(2) Caniateir i daliadau gael eu gwneud o dan is-baragraff (1) **yn ychwanegol** at y tâl cydnabyddiaeth sy'n daladwy i'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 7....".*

4. Felly, ym marn y Pwyllgor, dim ond i'r graddau y gellir priodoli'r treuliau i swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol fel aelod a phrif weithredwr Swyddfa Archwilio Cymru y mae arfer Swyddfa Archwilio Cymru wrth dalu holl dreuliau'r Archwilydd Cyffredinol yn cydymffurfio â gofynion Deddf 2013. Os yw unrhyw dreuliau o'r fath yn ymwneud (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol) â swyddogaethau nad ydynt i'r Archwilydd Cyffredinol fel aelod neu brif weithredwr, ni fyddai taliadau o'r fath yn cydymffurfio â gofynion Deddf 2013 a gall arwain at broblemau o ran anghysondebau.